# Cylchlythyr
# Y
# Pennaeth

TACHWEDD

2021

# Tymor yr Hydref

Diolch i bawb am eu cefnogaeth dros yr hanner tymor diwethaf.

# CLYBIAU PRYSUR!

Mae wedi bod yn bleser pur gweld y bwrlwm yn ôl yn yr ysgol a braf iawn cael gweld gweithgareddau allgyrsiol yn ail-gychwyn. Mae nifer fawr o'n disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt ac mae'r clybiau yn cynnig rhywbeth sydd at ddant pawb gobeithio!

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl staff am eu hamser a'u hymroddiad i ddarparu cyfleoedd mor amrywiol i'n disgyblion yn ystod yr amser cinio ac ar ôl ysgol.




Mae'r clybiau ar agor i bawb a byddant yn parhau i gael eu cynnal yn ystod y tymor.

# Gwelliannau - Adeilad & Safle

Mae'n bleser gennyf rannu efo chi y cynlluniau cyffrous ar gyfer y Safle a'r Adeiladau dros y misoedd nesaf.



Rydym eisoes wedi buddsoddi'n helaeth mewn sgriniau digidol ac mae'n bleser gennyf nodi bod pob dosbarth efo sgrin ddigidol erbyn hyn.

Mae'r disgyblion yn ymateb yn wych i'r hyn sydd yn cael ei gynnig ar lawr y dosbarth ac mae'r adnoddau yn cyfrannu yn sylweddol at foddhad ein disgyblion.

---

Byddwn yn cychwyn yn fuan ar y gwaith o adeiladu ystafell ddosbarth tu allan, a bydd hwn yn adnodd pwysig i bawb fwynhau dysgu yn yr awyr agored - pan fydd y tywydd yn caniatau wrth gwrs!






Er mwyn parhau i wella profiadau ein disgyblion amser cinio rydym hefyd wedi archebu 'pod' gweini bwyd ychwanegol. Gobeithiwn y bydd hyn yn ein galluogi i ail-ddechrau cynnig byrbrydau i frecwast ac amser egwyl.

Yn dilyn cais cynllunio llwyddiannus, rydym hefyd yn y broses o osod giatiau a ffens newydd yn nhu blaen ac ar ochrau'r ysgol. Bydd hyn yn gwella'r safle o ran diogelwch.

# Taith Gwella'r Ysgol

Mae'r '5 Cwestiwn' wedi gwreiddio acw bellach, ond er mwyn parhau i godi safonau mae'n hanfodol ein bod yn gwybod yn union lle rydym ni a beth rydym angen ei wneud i wella.



Y tymor hwn felly, rydym wedi creu partneriaeth gyda phrofion CATs, dyma brofion ar lein drwy ddefnyddio'r Chromebooks sy'n mesur gallu gwybyddol ein dysgwyr. Maent hefyd yn cynorthwyo ysgolion i adnabod potensial eu disgyblion. Ond, yn bwysicach i ni, byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau i dargedu cefnogaeth, ymyrraeth a sicrhau'r her priodol i ddysgwyr o bob gallu. Nid oes unrhyw waith paratoi ar gyfer y profion hyn, na phryderu am unrhyw ganlyniadau, ond byddent yn rhoi gwybodaeth hynod ddefnyddiol i ni fel ysgol ac i chi fel rhieni.

---

## CYNLLUN CYFFROUS - CA4

Mae gennym gynllun cyffrous ar droed yng Nghyfnod Allweddol 4.

Rwy'n falch o ddweud y bydd Ysgol Uwchradd Bodedern yn un o'r ychydig ysgolion ar draws Gogledd Cymru fydd yn rhan o gynllun PISA for Schools a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn rhoi Boded ar y map rhyngwladol gan y byddwn yn cydweithio gydag ysgolion rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol eraill.

Drwy gydweithio gyda'r OECD byddwn yn gallu cymhrau sut ydym yn gwneud yn erbyn meincnodau rhyngwladol, ynghyd â rhoi data gwerthfawr ar ein cynnydd ym meysydd Mathemateg, Gwyddoniaeth a Darllen.

Bydd yr holl ddata yma, gan gynnwys data am les, cymhelliant a'r hinsawdd yn y dosbarth, yn gallu cyfeirio ein gwaith i wella drwy addasu ein cynlluniau gwaith i ymateb i'r canfyddiadau.

# BLWYDDYN 11

Mae'r cyfnod hwn yn parhau yn gynhyrfus, ac anogaf chwi i edrych yn gyson ar wefan Cymwysterau Cymru am unrhyw ddiweddariadau a newyddion parthed asesu ac arholiadau 2022. Ein blaenoriaeth ni ydy cefnogi, paratoi ac arfogi ein dysgwyr ar gyfer pa bynnag sialens fyddant yn ei wynebu yr haf nesaf.

Ni chredwn fod 'ffug arholiadau' i gyd efo'i gilydd mewn cyfnod byr yn ffordd dda o baratoi, ac felly byddwn yn gwasgaru asesiadau ac arholidau ffug. Rydym am i blant gael cyfle i baratoi a chael profiadau fydd o gymorth iddynt. Mae'n hanfodol felly fod pawb yn gweld yr arholiadau, nid fel prawf o'r hyn nad ydych yn wybod, ond yn hytrach rhoi gwybodaeth am gryfderau a pha agweddau sydd angen rhagor o sylw neu gefnogaeth.

Mae blwyddyn 11 yn barod wedi cael profiad o sefyll arholiad Saesneg, ac wythnos nesaf bydd yr adran Fathemateg yn cynnal arholiadau Rhifedd.

Unwaith eto, pwysleisiaf nad oes angen pryderu. Beth sy'n bwysig ydy i bawb wneud eu gorau, yna byddwn yn gwybod pa agweddau fydd angen mwy o gymorth.

Fel athletwyr gorau'r byd, perfformio ar eich gorau ar yr adeg cywir sy'n bwysig ... sef Haf 2022!

### Sut mae fy mhlentyn yn ei wneud a sut dwi'n gwybod?

Erbyn hyn bydd yna lawer o adborth yn llyfrau eich plentyn, ac efallai marciau prawf ac asesiadau. Derbyniodd Blwyddyn 11 adroddiad cryno fis diwethaf, ac erbyn diwedd yr hanner tymor yma bydd pob blwyddyn wedi derbyn adroddiad cynnydd cryno.

Ond petae chi yn dymuno unrhyw wybodaeth bellach yna cysylltwch â'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol.

### Nosweithiau Rhieni / Agored

Cynhelir noson rieni Blwyddyn 7, nos Fawrth Tachwedd 30. Bydd y cyfarfod yn rhithiol a bydd y manylion cofrestru yn cael eu rhannu'n fuan efo chi.

Hyderaf y bydd y 5 cwestiwn isod o gymorth i chi wrth drafod cynnydd eich plentyn sy'n seiliedig ar ymchwil ryngwladol a gwaith Dr Lynn Sharratt.

## CWESTIYNAU Y GALL RHIENI OFYN I'R ATHRAWON

1. Beth mae fy mhlentyn yn ei ddysgu?

2. Sut mae ef / hi yn ei wneud?

3. Sut ydych chi'n gwybod (sut mae nhw'n wneud neu pa mor dda?)

4. Sut y gall ef/hi wella?

5. Pa gefnogaeth allaf i a chi ei roi os yw fy mhlentyn yn cael trafferth? Pryd y gallwn wirio a dod at ein gilydd eto?

## CWESTIYNAU I RIENI OFYN ADREF BOB DYDD

1. Beth wnes di ddysgu heddiw?

2. Sut nes di wneud?

3. Be' nes di os nad oeddet yn deall?

4. Sut wyt ti'n gallu gwella dy ddysgu?

5. Be' wyt ti'n fwyaf balch ohono?

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus. Mae'r daith gwella'n parhau!

Paul G. S. Matthews-Jones
Pennaeth


e-bost: paul.matthews-jones@yubodedern.cymru
ffôn: 01407 741000
https://www.ysgoluwchraddbodedern.org
facebook: yubodedern1
twitter: @yubodedern

# Headteacher's Newsletter

# November 2021


# Autumn Term

Thank you to everyone for their support over the last half term.

# BUSY CLUBS!

It's been absolutely fantastic to see our pupils enjoying being back at school and to see the extra curricular activities start again. Many of our pupils take advantage of the opportunities offered to them and we hope that there is something for everyone here!

I wish to take the opportunity to thank all our staff for their input and time and for offering such a fantastic variety of extra curricular activities during the lunch break and after school.




The clubs are open to everyone and will be available all term.

# Improvements - Building and Site

I have great pleasure in sharing the exciting plans we have for the building and the site over the next few months.




We have already invested heavily in digital screens and it's great to be able to report that every single classroom has a digital screen now.

The pupils respond very well to the digital learning and the excellent resources in use have increased our pupils' satisfaction.

---

We will soon be starting on the building work of an outside classroom, this will be an added option in the teacher's tool kit and will allow everyone the opportunity of learning outside - when the weather permits of course!






In order to further improve our pupils' experiences at lunchtime we have also ordered an additional food serving pod.

Hopefully this will allow us to serve snacks at breakfast and break times.

Following a successful planning application, we are also in the process of erecting new fences and gates to the school's front and side elevation. This will improve safety on the site.

# School Improvement Plan

Our 5 Questions approach is now well established, but crucially to raise standards we need to know where we are and how do we improve. Therefore this term we have teamed up to use CATs tests with our pupils using the chromebooks. Cognitive Abilities Tests (CATs) are marked assessments used by schools to assess pupils' overall intelligence, developed abilities and likely academic potential. More importantly for us, it will enable us to target support and challenge pupils appropriately. There are no real preparation for them, but they can be very informative for you as parents also. There is no need to worry at all about the results, the most important aspect is how do we use the data to inform us better, which will allow us to review different teaching and practice methods.



---

## KS4 - EXCITING PLANS

At Key Stage 4, we have joined a really exciting national project funded by Welsh Government, this will be cutting edge and give us real data to inform our practice and teaching.

PISA for Schools will provide a global benchmarking assessment for us, delivering customised data that shows how well our school is performing compared to National, OECD and global averages.

It is unique in it's ability to examine our students' ability to apply their learning in Maths, Reading and Science to real world problems alongside valuable data about their engagment, motivation, classroom climate and emotional wellbeing.

However, crucial to our improvement journey, will be its ability to provide valuable information for whole school evaluation and improvement planning processes. Hopefully this will impact positively on GCSE and A Level results in the future.

# YEAR 11

This continues to be a turbulent time, and all updated news regarding 2022 GCSE examinations can be viewed on the Qualifications Wales website. Our priority is to try and prepare our pupils for the challenges and rewards that Summer will bring. We do not believe that going back to the old tradition of packing in "mock examinations" is the best way forward especially with our 5 questions approach.

We do not believe that going back to the old tradition of packing in "mock examinations" is the best way forward especially with our 5 questions approach. We will therefore stagger assessment opportunities and mock examinations, in order for pupils to prepare. Again we need to change the mindset here, these exams are not about 'What I don't know' but rather an opportunity to gather information around strengths and areas to work on.

Year 11 pupils have already appreciated this in English, and next week the Mathematics department will hold a numeracy examinations.

Again I must re-iterate, please do not worry, what is important is that they all do their best, and then we will know what areas of the syllabus needs greater attention or intervention.

Like any top athlete, this is about optimizing performance when it matters ... that is next Summer!

### How is my child doing and how do I know?


There should be plenty of feedback in their books, and also various test results and assessments. Year 11 pupils have received a progress report, and by the end of the half term all pupils will receive an interim progress report.


Should you wish to have any additional information please contact your head of year.

### Parents Evenings and Open Evenings

Year 7 Parents Evening will be held virtually on Tuesday, 30th November. The virtual meeting will be held on line with your child's teachers and all the details regarding how to book your appointments will be shared you with you soon.

Here are the 5 Questions that you might find useful during the meeting, based on our 5 Questions approach which is taken from the international research completed by Dr Lynn Sharratt.




Thank you for your continued support. The improvement journey continues.

Paul G. S. Matthews-Jones
Headteacher

e-mail: paul.matthews-jones@yubodedern.cymru
telephone: 01407 741000
https://www.ysgoluwchraddbodedern.org
facebook: yubodedern1
twitter: @yubodedern